

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 11eg Medi, 2019 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd

PRESENNOL

Cynghorwyr : Glyn Davies (Cadeirydd yn absenoldeb y Cyng. Alan Henson) Lynford Thomas Gerwyn Owen, Johnny Davies, Harry Williams, Daniel Evans, Lyn Williams, Haf Hughes, Owen Llywelyn, Hywel Ifans.

1. YMDDIHEURIADAU

Y Cyng Alan Henson

2. PERSONOL

Croesawyd y Cyng. Harry Williams yn ôl i'n plith gan y Cadeirydd wedi cyfnod o anhwylder.

3. DATGELU BUDDION PERSONOL

Dim i'w datgelu

4. COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion 2il Groffennaf, 2019. Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Williams ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

5.. MATERION YN CODI

12.3) Cadarnhawyd bod tsaen y Cadeirydd wedi'i ddiweddarau gan Lloyds Jewellers ar gost o £15.00.

6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith dros yr haf.

Ar y 3ydd o Fedi, yng nghyfarfod Cabinet y Cyngor, cyflwynodd sylwadau'r aelodau i'r pryderon a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad parthed lleoliad yr ysgol newydd arfaethedig yn Nyffryn Aeron. Ar gynnig Y Cyng. Harry Williams ac a eiliwyd gan y Cyng. Owen Llywelyn, penderfynwyd cael trafodaeth lawn ar y mater yn y cyfarfod hwn er mwyn dod i gytundeb i'w gyflwyno i'r ymgynghoriad statudol sy'n cau ar y 13eg o Hydref.

Yn dilyn trafodaeth gynwysfawr a phleidlais (9 o blaid, 1 yn ymatal ei bleidlais) penderfynwyd derbyn y syniad o ysgol newydd fel a ganlyn:

Yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad ar nos Fawrth, 11eg Medi, 2019, penderfynwyd cefnogi'r egwyddor o sefydlu ysgol ardal newydd (3- 11 oed) yn Nyffryn Aeron.

Wrth ddatgan eu cefnogaeth, mae'r aelodau am i'r Cyngor Sir nodi parhad eu consyrn parthed lleoliad yr ysgol arfaethedig ac i'r perwyl hwn, byddant yn croesawu'r cyfle i fedru rhannu o'u gwybodaeth arbenigol leol gyda'r swyddogion perthnasol.

7. GARDWEST Y LLENG BRYDEINIG

Yn absenoldeb y Caderidydd, cafwyd adroddiad byr gan Y Cyng. Lyn Williams a fynychodd y digwyddiad gydag Alan. Cafwyd croeso da yng ngerddi Llanllŷr a braf oedd cael y cyfle i'r Cadeirydd wisgo'r tsaen mewn digwyddiad swyddogol wrth gynrychiolir'r Cyngor Cymuned.

8. CYLLID

- i. **Praesept.** Derbyniwyd yr ail daliad 14 31/7/2019..
- ii. **Tâl y Clerc.** Talwyd y swm o £153.26 ar 31/7/2019 a 31/8/2019.
- iii. **Cynhadledd Blynyddol Un Llais Cymru.** Talwyd swm o £180.00 i gofrestru'r Cyng. Lynford Thomas a Harry Williams i fynychu'r gynhadledd ar 5/10/2019 ym Mhontrhydfendigaid.
- iv. **Cronfa'r Caderidydd.** Trosglwyddwyd swm o £192.72 i'r gronfa i ddod lan a'r balans i £300.00
- iv. **HMRC.** Talwyd swm ychwanegol o £38.24 i gwblhau taliadau chwarter cyntaf gofynion PAYE. Mae'r taliadau'r chwarter nesaf yn ddyledus erbyn 22/10/2019.
- v. **Costau'r Clerc.** Mae swm o £14.00 yn ddyledus am stampiau.

Wrth gofrestru ar gyfer PAYE, rhaid oedd i'r Cyngor, fel cyflogwr, gofrestru ei statws o ran cynnig pensiwn i weithwyr sy'n rhan o'r cynllun. Gan nad yw cyflog y Clerc yn cyrraedd y canllaw swyddogol o £833 y mis nid yw'r Cyngor wedi gorfod ymaelodi â'r cynllun pensiwn i weithwyr. **Anfonwyd** llythyr at y Clerc i'w hysbysu o'r penderfyniad.

- vi. **Datganiad ariannol.** Dosbarthwyd y datganiad hanner blwyddyn. Cafwyd trafodaeth am gyfrifon 2017-2018 a'r ffaith fod swm o £3060.00 yn weddill. Yn dilyn trafodaeth gynhwysfawr am sut y gellid defnyddio'r arian yn effeithiol er budd y gymuned, ar gynnig Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Owen Llywelyn, **penderfynwyd** gwahodd Euros Lewis, Ymgynghorydd Cymunedol lleol i fynychu cyfarfod nesaf y Cyngor i gynnal sesiwn syniadau.

Yn dilyn y sgwrs, **derbyniwyd y datganiad** ac i adael y Praesept fel ag y mae tra'n defnyddio dwy ran o dair o'r swm sy'n weddill ar gyfer prosiect i'w benderfynu ar ac yna cadw traean wrth gefn.

9. GOHEBIAETH

Derybniwyd llythyron o ddiolch wrth:

- i. BOPATH £30
- ii. Cyngor ar Bopeth £50
- iii. Ambiwllans Awyr Cymru I Blant £50

10. CYNLLUNIO

Cadarnhaywd bod y ceisiadau cynllunio isod wedi eu hystyried dros gyfnod yr haf a phawb wedi cael cyfle i ymateb:

A190410, Exttension Hafod Brynog – 1st floor extension

A190438, No 1 Bro Henllys – two storey extension

A190471, Bryncesig, Dihewyd – Conversion of outbuilding (Y Cyng. Gerwyn Owen yn datgan diddordeb)

12. UNRHYW FATER ARALL

- I. Nododd Y Cyng. Lynford Thomas gŵyn am lwybyr sy'n arwain o Fro Henllys at gae chwarae'r pentre' yn Felinfach. Mae'r drysu yn ei wneud yn anodd i gerdded arni. **Penderfynwyd** trefnu i wneud ymholiadau ynglŷn â chlirio'r llwybyr.
- II. Codwyd pryderon ynghylch diogelwch gyrrwyr sy'n teithio o gyfeiriad Ciliau Aeron i Dihewyd gan y Cyng. Johnny Davies. Yn dilyn gwaith ar yr hewl hyd at sgwâr Dihewyd, nid oes llinell wen wedi ei hail-baentio i gyfeirio traffig i gadw i'r ochr gywir. Penderfynwyd i'r Clerc i gysylltu â'r adran i ofyn am gyfarfod ar leoliad er mwyn tanlinellu'r peryg posib o'i gadael heb linell wen.
- III. Nododd Y Cyng. Lyn Williams bod angen cymenu'r llwybyr troed o flaen Bro Siliin, Cribyn, Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.
- IV. Codwyd cwestiwn gan Y Cyng. Gerwyn Owen am bwrpas polyn teleffôn rhwng 1, Cylch Bethlehem ac Yr Aelwyd, Dihewyd. Does yr un wifren ynghlwm wrtho. Penderfynwyd cysylltu ag Adran y Priffyrdd i ofyn am eglurhad.

12. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Nos Fawrth, 8fed Hydref, 2019 yn Neuadd Felinfach